Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## MyDentist, Nolton Street, Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 18 Gorffennaf 2023

Dyddiad cyhoeddi: 18 Hydref 2023





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83504-883-2

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 8

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 16

4. Y camau nesaf .......... 20

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 21

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 22

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 23

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Nolton Street, Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 18 Gorffennaf 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 30 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 3 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Daethom i'r casgliad fod y practis yn cefnogi anghenion cleifion ac yn darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y claf. Gallai'r practis wella ei ddarpariaeth Gymraeg a'r broses o gofnodi dewisiadau iaith cleifion. Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis roi trefniadau ar waith i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' effeithiol i gleifion, gan gofnodi holl ddewisiadau iaith cleifion yn eu cofnodion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a gawsant yn dda iawn neu'n dda.
- Gwelsom staff yn trin cleifion ag urddas a pharch drwy gydol yr arolygiad.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom bractis modern a glân, a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod trefniadau digonol ar waith i drin cleifion yn ddiogel mewn modd amserol. Gwnaethom nodi y gellid gwneud rhai gwelliannau i'r ddarpariaeth o ran swyddogion cymorth cyntaf a'r broses o gadw cofnodion cleifion. Roedd y trefniadau diogelu yn y practis yn effeithiol ac roedd y staff yn wybodus am y prosesau.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Nodwyd bod angen swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig ychwanegol er mwyn sicrhau cyflenwad digonol ar gyfer nifer y cleifion a'r deintyddfeydd
- Mae angen i'r practis wella ei brosesau ar gyfer cadw cofnodion er mwyn sicrhau y caiff yr holl wybodaeth am gleifion ei chofnodi a'i storio'n briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cyfarpar clinigol a chyfarpar diogelwch yr adeilad yn cael ei brofi'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn ddiogel i gleifion a'r staff.
- Roedd trefniadau cynhwysfawr ar waith yn y practis ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod prosesau a gweithdrefnau llywodraethu addas ar waith i helpu i redeg y practis yn effeithiol. Gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau i ddogfennaeth cwynion y practis. Fodd bynnag, gwelsom arferion da mewn perthynas â chynnal hyfforddiant staff, gwiriadau cyflogaeth a fetio.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid diweddaru'r llenyddiaeth cwynion i adlewyrchu arferion cyfredol a'r wybodaeth ddiweddaraf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff, y rheolwyr a'r timau corfforaethol yn cydweithio i sicrhau gwasanaeth da i gleifion
- Roedd yr holl gofnodion staff y gwnaethom edrych arnynt yn bodloni'r gofynion ac roedd rheolwyr y practis a'r rheolwyr corfforaethol yn cefnogi'r staff i ddatblygu.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Dywedodd pob un o'r 30 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Gwnaeth un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y sylw canlynol:

> *"Y deintydd gorau erioed. Cyfeillgar iawn, prisiau teg"*

### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**
Drwy gydol ein harolygiad, gwelsom wybodaeth hybu iechyd ddwyieithog yn cael ei harddangos.

Roedd y wybodaeth yn cynnwys taflenni ar ofal ar ôl tynnu dannedd, dannedd gosod, ymwybyddiaeth o ganser y geg yn ogystal â rhoi'r gorau i smygu. Gwelsom hefyd fod enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn amlwg wrth fynedfa'r adeilad, ochr yn ochr ag opsiynau prisiau, amseroedd agor a rhifau cyswllt y tu allan i oriau.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael cyngor ôl-ofal priodol, a manylion cyswllt y rhai y dylent gysylltu â nhw mewn argyfwng.

**Gofal Urddasol a Pharchus**
Yn ystod ein harolygiad, gwelsom a chlywsom y staff yn trin pob claf ag urddas a pharch.

Gwelsom y gallai'r staff gael sgyrsiau preifat dros y ffôn y tu ôl i sgrin wydr yn ardal y dderbynfa, i ffwrdd o'r prif ystafelloedd aros. Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cau yn ystod apwyntiadau a'u bod i ffwrdd o'r ardal aros er mwyn atal sgyrsiau preifat rhag cael eu clywed.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (29/30) a gwblhaodd holiadur AGIC fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, eu bod wedi gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod wedi ateb eu cwestiynau.

### Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am y triniaethau a oedd ar gael, a bod y staff wedi esbonio'r risgiau a'r manteision iddynt.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (29/30) hefyd yn teimlo bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol eu hapwyntiad a bod y staff wedi esbonio iechyd eu ceg iddynt mewn ffordd y gallent ei deall.

## Amserol

### Gofal Amserol

Gwelsom fod proses briodol ar waith ar gyfer trefnu apwyntiadau, a oedd yn rheoli amseroldeb gofal yn effeithiol i gleifion.

Dywedodd y staff wrthym y byddai apwyntiadau'n cael eu trefnu dros y ffôn ac y byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi neu achosion o ganslo apwyntiadau drwy neges destun neu alwad ffôn. Byddai apwyntiadau brys yn cael eu rheoli drwy broses brysbennu dros y ffôn mewn ymgynghoriad ag ymarferydd deintyddol. Dywedodd y staff wrthym y byddai plant yn cael eu gweld ar yr un diwrnod ac y byddai pob claf arall yn cael ei weld o fewn 24 awr. Gallai cleifion hefyd anfon lluniau er mwyn i'r deintyddion asesu eu cyflwr yn briodol.

Gwelsom y practis yn gweithio'n hyblyg i fodloni argaeledd cleifion, a chafodd hyn ei ategu gan sylwadau'r mwyafrif o'r cleifion (24/30) yn holiadur AGIC. Fodd bynnag, dwedodd rhai o'r ymatebwyr (6/30) wrthym eu bod wedi ei chael hi'n anodd apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

## Teg

### Cyfathrebu ac Iaith

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth ddwyieithog ar gael ar gais, ond dywedodd y staff wrthym mai cyfran fach o'r cleifion oedd yn siarad Cymraeg. Ni welsom yr un aelod o'r staff yn gwisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' ac nid oedd y bathodyn hwn i'w weld o amgylch y practis, ond dywedodd rhai o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn siarad Cymraeg. Dywedodd rhai o'r cleifion a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC (6/30) mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. O blith y chwe chlaf hyn, dywedodd tri fod gwybodaeth am ofal iechyd ar gael iddynt yn eu dewis iaith a'u bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg yn y practis.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ a bod cleifion yn cael dewis o ran yr iaith roeddent yn dymuno ei siarad. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod cleifion yn gwybod y gallent wneud hynny.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi trefniadau ar waith i ddarparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ effeithiol i gleifion.**

Roedd cleifion nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn cael eu cefnogi drwy ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu. Dywedodd y staff wrthym y gallent ddarparu dogfennau neu eitemau eraill mewn fformatau gwahanol ar gais.

**Hawliau a Chydraddoldeb**

Gwelsom fod polisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth cynhwysfawr ar gael i'r staff drwy MyDentist, gan gynnwys polisi derbyn cleifion. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn ymwybodol o'r polisïau hyn ac yn gwybod ble i ddod o hyd iddynt.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (29/30) a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith fel claf. Yn ogystal, dywedodd y mwyafrif (25/30) eu bod yn teimlo bod yr adeilad yn hygyrch. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom glaf mewn cadair olwyn yn cael cymorth gan aelod o'r staff i fynd o'r dderbynfa i'r ddeintyddfa.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli Risg**
Gwelsom bractis glân a thaclus ar y cyfan, a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd derbynfa fawr ar y llawr gwaelod, ynghyd ag ystafell aros a deintyddfeydd modern. Roedd deintyddfeydd modern tebyg ar y llawr cyntaf, ynghyd ag ardal aros arall.

Gwelsom amgylchedd diogel yn yr ardaloedd a oedd ar agor i'r cyhoedd. Fodd bynnag, gwelsom fod atig y practis i'r staff yn unig yn anniben ac yn cynnwys nifer o focsys cardbord a oedd yn llawn cofnodion papur cleifion. Nid oedd y golau'n gweithio yn yr ardal hon ac roedd ceblau heb eu gorchuddio yn rhedeg ar hyd y llawr. Roedd hyn yn peri risg i iechyd a diogelwch y staff a oedd yn defnyddio'r ardal hon, yn ogystal â risg o dân.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ardal yr atig er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r practis yn ddiogel.**

Gwelsom doiledau modern a glân i'r cleifion a'r staff, a oedd yn gwbl weithredol ac yn cynnwys y cyfarpar priodol. Roedd cyfleuster newid priodol ar gael i'r staff. Gwelsom fod ffenestri ar agor er mwyn awyru'r practis, a bod y system gwresogi wedi'i gosod ar lefel gyfforddus i'r cleifion a'r staff.

Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwyr y practis a phoster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u harddangos yn glir ar y wal yn y dderbynfa. Gwelsom a chlywsom gyfathrebu priodol dros y ffôn, a gwelsom fod arwyddion digonol wedi'u gosod o amgylch y practis, gan gynnwys arwyddion dim smygu ac arwyddion ar gyfer gwagio'r adeilad yn achos tân, allanfeydd tân a mannau cynnull.

Gwelsom fod diogelwch tân yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn y practis, gyda'r staff yn cynnal gwiriadau dyddiol, a gwelsom asesiad risg tân a adolygwyd ym mis Mai 2023. Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y practis i ddangos bod problemau a nodwyd yn ystod arolygiad o'r goleuadau argyfwng ym mis Ebrill 2023 wedi cael eu datrys. Gwnaethom gadarnhau bod y cyfarpar tân a'r larymau tân yn cael eu profi'n rheolaidd, a bod amserlen briodol o ymarferion tân ar waith.

Ym mhob un o ffeiliau'r staff y gwnaethom edrych arnynt, gwelsom dystiolaeth bod yr aelod o'r staff wedi cwblhau cwrs hyfforddi ar ddiogelwch tân.

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a dihalogi cadarn ar waith i helpu i ddarparu gofal diogel i gleifion.

Gwelsom fod amserlen lanhau effeithiol ar waith, wedi'i galluogi gan ardaloedd clinigol a oedd mewn cyflwr da. Gwelsom brosesau atal a rheoli heintiau effeithiol yn cael eu dilyn i safon briodol. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (29/30) a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod o'r farn bod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân', a dywedodd pob un o'r cleifion fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i bob aelod o'r staff, a gwelsom y cyfarpar hwn yn cael ei ddefnyddio'n briodol ochr yn ochr ag arferion hylendid dwylo da. Roedd y staff yn gwisgo masgiau llawfeddygol fel mater o drefn, a dywedodd y staff wrthym fod y weithdrefn hon wedi cael ei chyflwyno yn dilyn y pandemig. Gwelsom hefyd arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig a oedd wedi'i enwi ym mholisïau'r practis.

Er mwyn atal anafiadau, defnyddiwyd dyfeisiau offer miniog mwy diogel. Roedd polisi amlygiad ac anafiadau nodwydd cynhwysfawr ar waith mewn perthynas â'r rhain, a oedd yn cyfeirio'r staff at wasanaethau iechyd galwedigaethol.

Gwelsom fod ystafell ddihalogi'r practis yn cynnwys cyfarpar addas a bod cynllun yr ystafell yn golygu y gallai'r cyfarpar gael ei lanhau'n ddiogel gan staff y gwnaethom gadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant ar y lefel briodol i wneud hynny. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal ar yr awtoclafau a'r glanhawyr uwchsonig, a bod pob un ohonynt yn destun rhaglenni cynnal a chadw dyddiol addas a gwiriadau a oedd yn cael eu cynnal yn ddigon aml. Roedd archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal fel mater o drefn yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwelsom fod holl wastraff y practis yn cael ei drin yn briodol, a rhoddwyd sicrwydd i ni fod contractau gwaredu gwastraff priodol ar waith. Roedd y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael ei rheoli'n addas ac roedd asesiad risg wedi cael ei gynnal mewn perthynas â hi, a gwnaethom edrych ar ffolder COSHH cynhwysfawr y practis.

**Rheoli Meddyginiaethau**

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn dosbarthu meddyginiaethau i gleifion fel mater o drefn, ar wahân i'r rhai a ddefnyddir mewn argyfwng. Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel a bod proses ddiogel ar waith ar gyfer gwaredu hen feddyginiaethau.

Gwelsom fod y pecyn cymorth cyntaf, y meddyginiaethau brys a'r cyfarpar meddygol o fewn eu dyddiadau defnyddio, ac roedd y cofnodion yn dangos bod y rhain yn cael eu gwirio'n rheolaidd. Roedd y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli argyfwng yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn gyson â chanllawiau'r Cyngor Dadebru.

Roedd cofnodion pob aelod o'r staff y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys cymhwyster dadebru cardio-anadlol cyfredol, ond dim ond un swyddog cymorth cyntaf oedd yn y practis ar gyfer nifer mawr o gleifion a staff ar yr un pryd. Roedd hyn yn peri risg pe bai'r swyddog cymorth cyntaf yn brysur pan fyddai claf arall neu aelod arall o'r staff yn mynd yn sâl.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau darpariaeth addas o swyddogion cymorth cyntaf.**

**Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwnaethom edrych ar y gweithdrefnau ar gyfer diogelu oedolion a phlant a gwelsom eu bod yn gynhwysfawr. Roeddent wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar ym mis Ebrill 2023 ac roeddent yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r staff yn briodol.

Gwelsom fod manylion cyswllt yr arweinydd diogelu dynodedig wedi'u cynnwys ym mholisïau'r practis ac i'w gweld yn amlwg yn ardaloedd y staff. Roedd yr arweinydd diogelu wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion hys at lefel 3. Roedd manylion y tîm diogelu lleol wedi'u nodi ar hysbysfwrdd yn y swyddfa'r rheolwr cofrestredig.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn deall ei gyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac amlinellodd y camau y byddai'n eu cymryd. Dywedodd pob un ohonynt hefyd eu bod yn teimlo y byddai'r rheolwyr yn eu cefnogi yn hynny o beth.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru a'u bod yn defnyddio'r ap ar gyfer dyfeisiau symudol.

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn lân ac mewn cyflwr da, a'i fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i wasanaethu i safon briodol. Roedd cofnodion y staff y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant hyd at lefel addas, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r cyfarpar.

Gwelsom fod gweithdrefn a pholisi derbyniol ar waith i reoli'r defnydd o gyfarpar pelydr-X yn y deintyddfeydd yn ddiogel, a bod cynghorydd diogelu rhag ymbelydredd wedi'i enwi ynddynt. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y staff, ochr yn ochr â'u hasesiad risg ymbelydredd a set addas o reolau lleol. Roedd pob un o'r rhain yn cael eu cadw mewn ffolder diogelu rhag ymbelydredd y gellid cael gafael arni'n hawdd.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall y broses i'w dilyn pe bai  digwyddiadau ymbelydredd, ac roedd y dogfennau cynhwysfawr y gwnaethom edrych arnynt yn ategu'r broses hon. Gwelsom fod risgiau a manteision pelydrau-X yn cael eu hesbonio i gleifion a, lle y bo'n berthnasol, eu gofalwyr. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod y staff yn defnyddio pelydrau-X fel sylfaen dystiolaeth briodol ar gyfer trin cleifion, gan asesu'r risg a chofnodi cyfiawnhad priodol dros eu defnyddio.

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau digonol ar gyfer graddio a sicrhau ansawdd pelydrau-X gan ddefnyddio proses fewnol MyDentist, sy'n gyson â phroses Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

## Effeithiol

### Gofal Effeithiol

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant egluro eu bod yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â derbyn ac asesu cleifion, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod eu hyfforddiant yn cefnogi hyn ac roedd polisïau a gweithdrefnau'r practis hefyd yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan y staff.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol (LocSSIPs) i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir, a gwelsom fod y staff yn cael cymorth gan eu corff corfforaethol i sicrhau bod cleifion yn cael y gofal cywir yn seiliedig ar dystiolaeth.

### Cofnodion y Cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf, a gwelsom eu bod yn cael eu cadw'n ddigidol ar system rheoli cofnodion cleifion ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Fodd bynnag, gwelsom fod hen gofnodion papur yn cael eu cadw mewn bocsys cardbord, yn hytrach nag mewn cabinet y gellid ei gloi, yn atig y practis y gallai unrhyw un gael mynediad iddi. Roedd hyn yn peri risg o fynediad damweiniol neu heb awdurdod i gofnodion cleifion.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff holl gofnodion papur cleifion eu cadw'n ddiogel bob amser ac yn unol â therfynau cadw'r GDPR.**

Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt y cynnwys hanes deintyddol, rhesymau dros apwyntiadau, y defnydd o alcohol a thybaco a'r cyngor a roddwyd ynghylch rhoi'r gorau i smygu a hylendid cyffredinol y geg. Fodd bynnag, nid oedd hanes meddygol wedi'i lofnodi a'i gydlofnodi bob amser ar gael ac nid oedd yr opsiynau triniaeth bob amser wedi'u cofnodi chwaith. Gwelsom nad oedd opsiynau na dewisiadau iaith y claf wedi'u cofnodi yn yr un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cywir a chynhwysfawr eu cadw am gleifion bob amser.**

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.**

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i wneud dewisiadau gwybodus am y gofal a gawsant, a gwnaethant gadarnhau bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth.

## Effeithlon

**Effeithlon**
Gwelsom fod y cyfleusterau a'r adeilad yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a gwelsom gymysgedd derbyniol o sgiliau yng nghofnodion y staff y gwnaethom edrych arnynt.

Gwelsom fod proses effeithiol ar waith ar gyfer y cleifion hynny yr oedd angen y gofal mwyaf brys arnynt, a oedd yn cynnwys brysbennu cleifion dros y ffôn ac esbonio manylion y gwasanaeth y tu allan i oriau yn glir iddynt. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiadur cleifion AGIC yn cefnogi hyn.

Esboniodd y staff fod proses apwyntiadau'r practis yn ystyried oedi ac yn helpu i reoli apwyntiadau brys. Gwelsom hefyd fod system gadarn ac effeithlon ar waith ar gyfer atgyfeirio cleifion at y GIG, a bod y staff yn cynnal gwiriadau dilynol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Adborth gan Staff

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi yn y gwaith, mai gofal deintyddol cleifion oedd ei flaenoriaeth bennaf, a bod y practis yn cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas ag iechyd a llesiant. Dywedodd un aelod o'r staff:

> *"Mae'r practis yn rhedeg yn ddidrafferth, ac yn cael ei reoli'n dda iawn. Y cleifion sy'n dod gyntaf ac maen nhw bob amser yn cael eu trin ag urddas. Dyma'r swydd orau rwyf wedi ei chael ac allwn i ddim dychmygu gadael"*

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Roedd y practis yn rhan o grŵp ehangach MyDentist ac roedd ganddo drefniadau llywodraethu cefnogol a rheolwr practis, sydd hefyd yn cefnogi practisau cyfagos eraill. Gwelsom fod y trefniadau llywodraethu lleol ac ehangach yn gweithio'n dda, a gwelsom dystiolaeth bod y practis yn defnyddio adnoddau datblygu corfforaethol.

Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod rheolwr y practis yn wybodus ac yn gefnogol. Gwelsom gydberthnasau gwaith da rhwng y staff a'r rheolwr o dîm corfforaethol MyDentist a oedd yn bresennol ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom fod cyfarfodydd practis ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, er nad oedd y cofnodion yn fanwl iawn. Gallai hyn ei gwneud hi'n anodd i rywun ddeall beth ddigwyddodd a'r hyn a drafodwyd os nad oeddent yn bresennol.

Roedd pob un o'r polisïau y gwnaethom edrych arnynt yn gynhwysfawr ac wedi cael eu diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau gwasanaeth diogel o safon i gleifion. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar y polisïau hyn yn hawdd.

## Y Gweithlu

**Gweithlu Medrus a Galluog**
Gwelsom dystiolaeth o gydymffurfiaeth dda â hyfforddiant gorfodol ym mhob rhan o'r gweithlu, a gwelsom fod rhai o'r nyrsys wedi cwblhau cyrsiau hyfforddiant priodol uwchlaw'r gofynion sylfaenol.

Gwelsom fod rheolwr y practis yn goruchwylio hyfforddiant a chydymffurfiaeth y staff, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr i gwblhau hyfforddiant ac i godi unrhyw bryderon a oedd ganddynt. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod eu hyfforddiant a'u datblygiad personol y cael eu hadolygu'n rheolaidd, a bod hynny'n digwydd yn amlach ar gyfer myfyrwyr.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau wyth aelod o'r staff, yr oedd pob un ohonynt yn bodloni'r gofynion ac yn dangos bod gwiriadau cyflogaeth priodol wedi cael eu cynnal ar lefel gorfforaethol gan MyDentist. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, indemniad proffesiynol, lle y bo angen, ochr yn ochr â gwiriadau geirdaon a gwiriadau ar hanes cyflogaeth.

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith yn sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol, ac yn cael eu hadolygu ar adegau priodol.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**
Gwelsom fod proses addas ar waith i geisio adborth gan gleifion ac ymateb iddo. Gwelsom ffurflen adborth gan gleifion a chofnod o adborth ar lafar yn y dderbynfa, a dywedwyd wrthym fod y practis yn annog cleifion i roi adborth drwy adolygiadau ar-lein.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r adborth a gafwyd yn ddiweddar, gan gynnwys cwyn, a rhoddwyd sicrwydd i ni fod polisïau'r practis a'r disgwyliadau a nodir yn ‘Gweithio i Wella’ yn cael eu dilyn.

Dywedodd y staff wrthym fod rheolwr y practis yn bwrw golwg dros yr holl adborth a geir, ac roedd yr hyn a welsom ym mholisi'r practis ar gyfer ymdrin ag adborth yn cadarnhau hyn. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod proses newydd yn cael ei datblygu i roi gwybod i gleifion am unrhyw newidiadau sy'n deillio o'u hadborth.

Gwelsom fod y polisi cwynion wedi'i strwythuro'n briodol ac yn cynnwys gwybodaeth gyfeirio addas. Fodd bynnag, gwnaethom nodi meysydd a oedd wedi dyddio, gan gynnwys cyfeiriadau at Gynghorau Iechyd Cymuned, a ddisodlwyd gan Llais ym mis Ebrill 2023. Roedd hefyd yn cyfeirio at Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, yn hytrach na rheoliadau 2017.

Gwelsom fod y broses gwyno ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat i'w gweld yn ardal y dderbynfa. Fodd bynnag, roedd rhai o'r manylion wedi dyddio, gan gynnwys manylion cyswllt anghywir ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Gwelsom fod y taflenni gwybodaeth i

gleifion yn cynnwys manylion AGIC a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ond nad oeddent yn cyfeirio at Llais fel ffordd o gael cymorth eirioli.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r polisi cwynion ac unrhyw lenyddiaeth gysylltiedig sydd ar gael yn y practis.**

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael y wybodaeth gywir ynglŷn â sut y byddai'r practis yn datrys unrhyw bryderon neu gwynion yn dilyn eu triniaeth.

Wrth drafod â'r staff, gwelsom eu bod yn gallu disgrifio'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn gywir a'u bod yn teimlo'n hyderus i godi pryderon pan oedd rhywbeth wedi mynd o chwith wrth drin claf. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i'r staff mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd a bod rhai o'r staff wedi cwblhau cwrs hyfforddi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd. Dywedwyd wrthym y byddai pob aelod o'r staff yn mynychu sesiwn hyfforddi maes o law.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**
Roedd system cofnodion cleifion ddigidol briodol ar waith, ynghyd â system ddigidol i gofnodi a chyfeirio digwyddiadau diogelwch cleifion. Byddai'r tîm corfforaethol yn adolygu digwyddiadau o fewn pedair awr, ac er nad oedd unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion i ni eu hadolygu, cawsom sicrwydd gan y prosesau a oedd ar waith.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

**Gweithgareddau Gwella Ansawdd**
Gwelsom fod polisi digonol ar waith i gefnogi'r broses o gwblhau archwiliadau gwella ansawdd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cymorth drwy MyDentist i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion drwy adborth ac ymchwiliadau i ddigwyddiadau. Roedd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod archwiliadau addas yn cael eu cynnal mewn perthynas â phelydrau-X, dihalogi, rhoi'r gorau i smygu a rhagnodi gwrthfiotigau.

## Dull Systemau Cyfan

**Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**
Gwelsom gydberthnasau gwaith da rhwng staff corfforaethol MyDentist a'r practis, ac roedd yr hyn a ddywedodd y staff wrthym yn cadarnhau hyn. Gwnaeth y staff

hefyd amlinellu proses ddigidol effeithiol ar gyfer atgyfeirio cleifion at wasanaethau eraill, a oedd yn galluogi cleifion, gan gynnwys y rheini â'r anghenion mwyaf brys, i gael gofal mewn modd amserol. Gwelsom fod proses addas ar waith i fynd ar drywydd unrhyw atgyfeiriadau a wnaed.

Dywedodd y staff fod ganddynt gydberthnasau gwaith da â gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, gan gynnwys gwasanaethau meddyg teulu.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn** | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: MyDentist, Nolton Street, Pen-y-bont ar Ogwr

## Dyddiad yr arolygiad: 18/07/2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | | | |

# Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** **MyDentist, Nolton Street, Pen-y-bont ar Ogwr**

**Dyddiad yr arolygiad:** **18/07/2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' a bod cleifion yn cael dewis o ran yr iaith roeddent yn dymuno ei siarad. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod cleifion yn gwybod y gallent wneud hynny.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi trefniadau ar waith i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' effeithiol i gleifion. | Rheoliad - Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (1) (a) | Mae poster wedi cael ei osod ar yr hysbysfwrdd i gleifion yn rhoi gwybod iddynt y gallant ofyn am gael defnyddio eu dewis iaith yn y practis | Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |
| **Gwelsom fod atig y practis i'r staff yn unig yn anniben ac yn cynnwys nifer o focsys** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ardal yr atig er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r practis yn ddiogel. | Adran 22 (2) (a) | Mae unrhyw eitemau nad ydynt yn cael eu defnyddio wedi cael eu symud o'r atig. Mae | Rheolwr y Practis | 31 Mawrth 2024 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **cardbod a oedd yn llawn cofnodion papur cleifion. Nid oedd y golau'n gweithio yn yr ardal hon ac roedd ceblau heb eu gorchuddio yn rhedeg ar hyd y llawr.** | | | cais am waith i gyfleuster wedi'i wneud i ganolfan gymorth MyDentist er mwyn gosod goleuadau addas. Mae cabinetau ffeilio wedi'u harchebu er mwyn storio'r cofnodion, a phan fyddant wedi'u trosglwyddo i'r cabinetau ffeilio, bydd y practis yn anelu at archifo'r cofnodion. | | |
| **Dim ond un swyddog cymorth cyntaf oedd yn y practis ar gyfer nifer mawr o gleifion a staff ar yr un pryd.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau darpariaeth addas o swyddogion cymorth cyntaf. | Adran 17 (1) (a) | Mae lle wedi'i drefnu ar gyfer unigolyn ychwanegol ar gwrs cymorth cyntaf gydag Ambiwlans Sant Ioan | Rheolwr y Practis | 31 Hydref 2023 |
| **Gwelsom fod hen gofnodion papur yn cael eu cadw mewn bocsys cardbord, yn hytrach nag mewn cabinet y gellid ei gloi, yn atig y** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff holl gofnodion papur cleifion eu cadw'n ddiogel bob amser ac yn unol â therfynau cadw'r GDPR. | Adran 20 (2) | Fel y nodwyd uchod, mae'r practis wedi archebu cabinetau ffeilio y gellir eu cloi a bydd yn trosglwyddo'r | Rheolwr y Practis | 31 Hydref 2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **practis, y gallai unrhyw un gael mynediad iddi.** | | | cofnodion iddynt pan fyddant wedi cyrraedd. | | |
| **Nid oedd opsiynau na dewisiadau iaith y claf wedi'u cofnodi yn yr un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt.** | Rhaid i'r rheolwr cofestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi. | Adran 13 (1) (a) | Mae'r practis wedi dechrau cofnodi dewis iaith cleifion yng nghofnod R4 cleifion. | Rheolwr y Practis | Parhaus |
| **Nid oedd hanes meddygol wedi'i lofnodi a'i gydlofnodi bob amser ar gael ac nid oedd yr opsiynau triniaeth bob amser wedi'u cofnodi chwaith.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cywir a chynhwysfawr eu cadw am gleifion bob amser. | Adran 20 (1) | Cysylltwyd â'r Cynghorydd Datblygu Clinigol er mwyn trefnu iddo ymweld â'r practis a thrafod â phob clinigydd. Bydd hyn hefyd yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y practis. | Rheolwr y Practis / Cynghorydd Datblygu Clinigol | 31 Hydref 2023 |
| **Gwelsom ardaloedd lle roedd y polisi cwynion a'r posteri cyfatebol a oedd yn cael eu harddangos i gleifion wedi dyddio neu'n anghywir.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddaru'r polisi cwynion ac unrhyw lenyddiaeth gysylltiedig sydd ar gael yn y practis. | Adran 21 (1) | Diweddarwyd y polisi cwynion a'r poster | Rheolwr y Practis | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Sara Haworth / Sarah-Jane Davies**

**Swydd: Rheolwr y Practis / Swyddog Rheoleiddio**

**Dyddiad: 14/09/2023**